


anthem.



"MUSIC IS MY ANCHOR. IT TRANSCENDS THIS REALM WE'RE IN, TO TAP INTO SOME REALLY PRIMAL STUFF. [WITHOUT IT] I WOULD FEEL EMPTY – [THERE WOULD BE] A VOID."

MUSICIAN, WRITER, CREATIVE DIRECTOR AND ACTIVIST

ANDREW OGUN

anthem.

**RHEOLWR PROSIECT Y PORTH DIGIDOL
PECYN GWYBODAETH
MAI 2022**

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn rôl rheolwr prosiect llawrydd porth digidol Anthem.

Mae Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn elusen newydd gyffrous a lanswyd yn 2019. Ymunais ag Anthem fel y Prif Weithredwr cyntaf yn 2020. Rydym ar waith ag adeiladu ein rhaglenni, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid sy'n cynnwys pobl ifanc 16 – 24 oed sydd ag angerdd am gerddoriaeth yng Nghymru, a Chronfa Atsain sy'n canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru. Y cam nesaf ar ein taith yw adeiladu Porth Digidol i gerddoriaeth i bobl ifanc.

Fel sefydliad, rydym ar ddechrau ein taith, ac yn adeiladu tîm cryf ac amrywiol i gefnogi ein gwaith. Tîm bach sydd gennym ar hyn o bryd, gyda rhai aelodau o staff ar PAYE a rhai'n gweithio fel gweithwyr llawrydd. Mae pwyslais cryf ar gefnogi ein gilydd ac mae'n bwysig bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu a'u bod yn cael cyfle i ddatblygu eu hunain pan fyddant yn dod i weithio gydag Anthem. Pan fyddwn yn recriwtio, rydym yn chwilio am botensial ac angerdd.

Caiff y tîm ei gefnogi gan grŵp cryf o ymddiriedolwyr o gefndiroedd amrywiol. Yn ddiweddar, gwnaethom recriwtio tri ymddiriedolwr ifanc newydd, ac mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i roi pobl ifanc wrth wraidd Anthem. Bydd yr ymrwymiad hwn yn rhan bwysig o'r ffordd y byddwn yn datblygu'r Porth Digidol.

Byddwn yn hapus i drafod y rôl gyda chi cyn i chi wneud cais, felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau trefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost i mi: rhian.hutchings@anthem.wales .

Rhian Hutchings, Prif Weithredwr Anthem

YNGLŶN AG ANTHEM

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru Music Fund Wales 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r elusen bellach ar gam cyffrous yn ei datblygiad, ar ôl penodi Prif Weithredwr llawn amser yn 2020 i ddod â'r ymddiriedolwyr a thîm ynghyd i weithio tuag at ein gweledigaeth a'n cenhadaeth:

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol cryf i bobl ifanc sy'n hybu hunanfyngiant, datblygiad personol a lles.

Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaedd cerddorol.

Mae Anthem yn sbardun ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn gwneud cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem eisiau sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynwysoldeb, parch a gwahaniaeth – yn sail i holl feysydd gwaith y sefydliad a'i nod yw eu hyrwyddo ymhlith ei bwrdd, ei harferion cyflogaeth ac ar draws ei gwaith. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol, ac i ysbrydoli.

PROSIECT PORTH DIGIDOL ANTHEM

Rydym yn edrych am Reolwr Prosiect i reoli ein Prosiect Datblygu Porth Digidol o fis Mehefin i fis Hydref 2022.

Bydd Prosiect Datblygu Porth Digidol Anthem yn ymchwilio ac yn datblygu plattform ar-lein a fydd yn creu pont i bobl ifanc i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Bydd y prosiect yn datblygu, yn cwmpasu ac yn adeiladu Porth lle gall pobl ifanc ddod o hyd i gyfleoedd ym myd cerddoriaeth, gwybodaeth am yrfaeodd, storïau cyfoedion a chysylltiadau â'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Bydd cymuned o bobl ifanc wrth wraidd y Porth Digidol a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid datblygu cerddoriaeth allweddol yng Nghymru.

Bydd gweithgarwch y prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Recriwtio tîm o ddatblygwyr cymheiriaid
- Cydweithio â phartneriaid allweddol Anthem ar y prosiect
- Tendro am ddatblygwr y we i adeiladu'r plattform
- Cyfarfodydd wythnosol gyda'r datblygwyr cymheiriaid
- Datblygu deunydd cychwynnol i'r plattform
- Profi'r plattform newydd gydag aelodau Fforwm Ieuenctid Anthem a rhanddeiliaid ehangach

SUT I WNEUD CAIS

Darllenwch y disgrifiad o'r rôl a manyleb y person isod ac anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn dweud wrthym fod y rôl o ddiddordeb i chi a sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r hyn rydym yn chwilio amdano. Anfonwch bopeth i rhian.hutchings@anthem.wales

- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw dydd Llun 30 Mai am 5pm.
- Cewch wybod os ydych yn cael eich gwahodd i gyfweiliad erbyn dydd Llun 6 Mehefin.
- Cynhelir cyfweiliadau ddydd Gwener 10 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill i'ch galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i rhian.hutchings@anthem.wales

DISGRIFIAD O'R RÔL

Mae rôl Rheolwr Prosiect y Porth Digidol yn contract llawrydd.

Bydd yr ymrwymiad amser yn gyfwerth ag 1 diwrnod yr wythnos dros 20 wythnos o 6 Mehefin hyd 30 Hydref 2022.

Gall Anthem gynnig cyfanswm o £4000 o ffi (£200 yr wythnos dros 20 wythnos)

Bydd Rheolwr Prosiect y Porth Digidol yn atebol i'r Prif Weithredwr.

TASGAU

- Gweithio gyda Phrif Weithredwr Anthem i gynllunio a siapio prosiect Datblygu'r Porth Digidol
- Rheoli datblygiad y Porth Digidol, gan gadw'r prosiect ar y trywydd iawn a sicrhau bod y cerrig milltir allweddol yn cael eu bodloni
- Rheoli'r cyfarfodydd datblygu ac amserlen y tîm
- Rheoli'r broses dendro ar gyfer datblygwr y we
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda thîm y Porth Digidol gan gynnwys partneriaid, datblygwyr cymheiriaid, datblygwr y we, Fforwm leuenctid Anthem a thîm Anthem
- Rheoli'r amserlen ar gyfer datblygu cynnwys gan weithio gyda'r datblygwyr cymheiriaid
- Rheoli'r gwaith o brofi'r platfform unwaith y bydd y platfform cychwynnol yn ei le
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau allweddol Anthem gan gynnwys Diogelu, GDPR, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chod Ymddygiad
- Monitro a gwerthuso'r prosiect a chyflwyno adroddiad gwerthuso byr ar ddiwedd y prosiect

NODWEDDION

- y gallu i deithio i fynychu cyfarfodydd neu i fynychu cyfarfodydd ar-lein
- y gallu i weithio gartref
- y gallu i gefnogi digwyddiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau os oes angen

MANYLEB Y PERSON

Gwybodaeth, Profiad a Sgiliau
Hanes dangosadwy / llwyddiannus o reoli prosiectau
Gwybodaeth am arferion gwaith y sector
Gwybodaeth am blatfformau rheoli a chyfathrebu digidol, gan gynnwys Zoom, Google, Whats App
Sgiliau trefnu, rheoli prosiectau a chyllidebu cryf
Gweithiwr manwl sy'n rhoi sylw i fanylion
Cyfathrebwr da sy'n creu perthnasoedd cadarnhaol
Hwylusydd croesawgar sy'n mwynhau adeiladu rhwydweithiau
Rhinweddau Personol
Chwaraewr tîm rhagorol sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth
Agwedd gadarnhaol – yn dangos menter ac yn gweithio heb lawer o oruchwyliaeth
Uniondeb personol – tystiolaeth o ddisgresiwn, gonestrwydd, a bod yn agored
Dymunol
Profiad o weithio'n ddwyieithog
Dealltwriaeth o dirlun addysg cerddoriaeth a cherddoriaeth ieuenctid yng Nghymru
Mae Anthem yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg